

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	9 Mehefin 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Nicola Kneale, Pennaeth ar y Cyd Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad, 2021 i 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2021-2022, gan ddarparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o'r cynnydd a'r heriau gyda'n hamcanion perfformiad allweddol (h.y. blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol) a'n saith maes llywodraethu. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu naratif ar weithgarwch y Cyngor i gefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Er ei fod wedi'i roi ar brawf y llynedd, yr adroddiad hwn yw'r ddogfen gyntaf sydd ei hangen yn statudol mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n gofyn i'r Cyngor gynnal hunanasesiad o'i berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau. Mae hefyd yn ymateb i'n dyletswydd mewn perthynas â monitro cydraddoldeb (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol), a'n cyfraniad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2.2 Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae

ein crynodeb gweithredol, a gyflwynir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn darparu datganiad gwerthuso ynglŷn â'n cynnydd.

- 2.3 Ceisir adborth ar gynnwys yr adroddiadau drafft, (atodiadau I, II a III) cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r dogfennau terfynol fis Gorffennaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried yr adroddiad ac yn darparu sylwadau arno, ac yn cytuno ar unrhyw gam pellach sydd ei angen i ymateb i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod cyfeiriad strategol y Cyngor a'i flaenoriaethau dros gyfnod o bum mlynedd. Nodir manylion yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Adroddwyd ar y cynnydd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

- 4.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tair dogfen:

- Mae atodiad I yn cyflwyno ein Crynodeb Gweithredol, sy'n ceisio amlygu uchafbwyntiau ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion (h.y. ein Blaenoriaethau Corfforaethol sef ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb) a'r saith maes llywodraethu (wedi'u cyflwyno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), Y paragraffau byr yn y ddogfen hon i bob pwrpas yw ein datganiad o'n perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, gan hefyd edrych i'r dyfodol i'r heriau sydd yn ein hwynebu a'r meysydd i'w gwella.
- Atodiad II yw'r Diweddariad ar Berfformiad chwarterol cyfarwydd, sef ein proses ar gyfer hunanasesu parhaus sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth (mewnol ac allanol) a dadansoddiad sy'n ceisio ateb y cwestiwn 'Pa mor dda

ydym yn gwneud', 'Sut ydym yn gwybod' a 'Beth a sut allwn ni ei wneud yn well?' Mae'r Diweddariad ar Berfformiad hwn yn cyflwyno'r darlun diweddaraf o fis Ionawr i fis Mawrth 2022, ond gyda'r Crynodeb Gweithredol a'r tri adroddiad diweddarau blaenorol, fe gawn ni'r Hunanasesiad llawn ar gyfer 2021-22. Bydd adolygu'r pedwar Diweddariad ar Berfformiad gyda'i gilydd yn caniatáu i'r darlennydd weld y gwelliannau rydym ni wedi'u nodi drwy gydol y flwyddyn i gefnogi perfformiad.

- Mae atodiad III yn adroddiad 'un-tro' sy'n crynhoi perfformiad ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022 yn ystod y pum mlynedd gan ei fod bellach wedi cyrraedd ei flwyddyn olaf.

4.3 Ym mhob is-adran blaenoriaeth gorfforaethol, rydym ni'n parhau i gynnwys adrannau Lles a Chydraddoldeb sy'n sôn am ein cyfraniadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Rydym ni hefyd wedi cynnwys pennod ar wahân ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n nodi mentrau corfforaethol i gefnogi'r rhaglen hon.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Hunanasesiad o Berfformiad yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. Bydd prosiectau unigol / rhaglenni gwaith y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hasesu'n unigol wedyn, fel unrhyw gam gweithredu newydd sy'n cael eu datblygu.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Datblygwyd yr adroddiad gan y Tîm Cynllunio Strategol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae adborth eisoes wedi'i ofyn amdano gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ei gymeradwyo fis Gorffennaf.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Byddai peidio â chyhoeddi'r Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1 Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: (pennod 1, adran 89).
- 11.2 Rhan 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13)
- 11.3 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16)
- 11.4 Mae adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â chraffu ar berfformiad yr awdurdod.